Adroddiad y Clerc 2015 -2016

COLEG CATHOLIG CHWECHED DOSBARTH DEWI SANT, CAERDYDD

Cyfarfod o'r Corff Llywodraethu Llawn, Hyd 19 2016 7.00pm

Yn ôl bwletin FEFCW (CCABC) FE/CL/00/16 mae'n ofynnol i'r Clerc ddarparu adroddiad blynyddol ar ran y Corff Llywodraethu a'i gyflwyno i'w gymeradwyo gan y Corff Llywodraethu cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Mae Coleg Catholig Chweched Dosbarth Dewi Sant yn Goleg dynodedig dan adran 28 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 ac o dan adran 29 o'r Ddeddf honno, caiff ei lywodraethu gan Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu wnaed gan y Corff Llywodraethu a'i gymeradwyo gan yr Ysgrifennydd Gwladol dan adran 29. Diogelir y Coleg dan ddarpariaethau arbennig yn y Ddeddf ynglŷn ag addysg grefyddol, addoli ar y cyd a'r mwyafrif sylfaen o'r Corff Llywodraethu. Mae Llywodraeth Cymru, wrth arfer y pwerau roddwyd gan adran 143(5) a (6) a 152(6) o'r Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000(1), ar ôl ymgynghori â Chorff Llywodraethu ac Ymddiriedolwyr Coleg Dewi Sant, wedi cyhoeddi gorchymyn Ymgorffori ar Awst 3ydd 2005 i ddod i rym ar Awst 5ed 2005 yn cymeradwyo Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu newydd wedi'u haddasu.

Mae Offeryn Statudol Llywodraeth Cymru Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014: Adran 4: *Sefydliadau dynodedig: offeryn ac erthyglau llywodraethu: Newidiadau i offerynnau ac erthyglau* ac y mae'r ddau Siediwl yn effeithio'n uniongyrchol ar Goleg Catholig Chweched Dosbarth Dewi Sant.
Roedd Adran 30 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 yn berthnasol i Goleg Catholig Chweched Dosbarth Dewi Sant fel Coleg dynodedig ac y mae'r Adran honno'n cyfeirio at gymeriad addysgiadol y sefydliad. Caiff hyn ei gadw yn Adran 4 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014 Newidiadau i Offerynnau ac erthyglau (3) *"Os yw'r sefydliad yng Nghymru ac yn sefydliad y mae adran 30 yn berthnasol iddo, dim ond drwy ganiatâd ymddiriedolwyr y sefydliad y gall y corff llywodraethu wneud unrhyw rai o'r pethau y cyfeirir atyn nhw yn isadran (2)."*

Mae'r Corff Llywodraethu wedi ystyried goblygiadau Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014 ac y mae wedi penderfynu peidio â newid yr Offerynnau ac Erthyglau Llywodraethu. Mae'r Corff Llywodraethu'n fodlon i ymateb i ysbryd Adroddiad Humphreys a chreu Grŵp Aelodaeth. Ar hyn o bryd, mae hyn heb ei ddilyn ymhellach er fod y Corff Llywodraethu'n parhau i aros am ymateb ffurfiol i'r ystyriaeth oddi wrth Archesgobaeth Caerdydd.

Ar unrhyw gyfnod penodol yn ystod y flwyddyn academaidd, roedd gan y Corff Llywodraethu 17 aelod, ac yn unol â'r Offeryn Llywodraethu, roedd wedi eu ffurfio fel â ganlyn:
10 Llywodraethwr Sylfaen wedi'u penodi gan Archesgobaeth Caerdydd

1 Llywodraethwr Cymunedol
1 Llywodraethwr Cyfetholedig
1 Llywodraethwr Awdurdod Lleol
1 Pennaeth
1 Llywodraethwr Rhiant Etholedig
1 Llywodraethwr Myfyriwr Etholedig
1 Llywodraethwr Staff Etholedig

Yn ystod blwyddyn Awst 1af 2015 hyd Awst 31ain 2016, penodwyd dau Lywodraethwr Sylfaen i lanw bylchau. Yn dilyn y drefn briodol, penodwyd myfyriwr llywodraethu mewn pryd i fynychu cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn academaidd. Dim ond un enwebiad dderbyniwyd ar gyfer bod yn rhiant lywodraethwr pan gynhaliwyd etholiad yn ystod tymor yr hydref.
Ar hyn o bryd mae un lle gwag ar y Corff Llywodraethu, sef sedd y Llywodraethwr/wraig i gynrychioli'r Gymuned.

Yn ystod y flwyddyn hon, 2015 – 2016, darfu i Lywodraeth Cymru gwblhau ei hymgynghoriad a gweithredu ***Cod Llywodraethu Da ar gyfer Colegau yng Nghymru*.** Yn ystod y broses honno bu i'r Gwasanaeth Addysg Catholig [Catholic Education Service (CES)] yn Llundain gysylltu â CholegauCymru a Llywodraeth Cymru gan hysbysu ColegauCymru fel â ganlyn:
"Rydyn ni'n sylwi, mewn mannau yn y Cod y cyfeirir at lywodraethwyr ac ymddiriedolwyr. Fodd bynnag, dydyn ni ddim yn deall at bwy maen nhw'n cyfeirio wrth sôn am ymddiriedolwyr, yn arbennig yn achos Coleg Dewi Sant. Er enghraifft, mae tudalen 6 o'r Cod yn amlinellu saith elfen o lywodraethu da ac yn cyfeirio at y gwerthoedd a'r disgwyliadau y mae disgwyl i'r ymddiriedolwyr eu cyflawni a'u cadw. Nid yw ymddiriedolwyr Coleg Dewi Sant, (Archesgobaeth Caerdydd) fel y sefydlwyr, yn gorff cyhoeddus ac ni ellir eu hymrwymo gydag unrhyw ddarpariaeth yn y Cod hwn."

Mae'r Clerc bob amser wedi credu bod Llywodraethwyr Sylfaen Coleg Catholig Chweched Dosbarth Dewi Sant (deg o ran nifer) sydd â mwyafrif o dri, yn gorfod gweithredu ar ran ymddiriedolwyr yr archesgobaeth i gynnal ymddygiad y coleg, yn unol â'r Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu. I gyd-fynd â'r ddyletswydd benodol honno, mae'r Erthyglau Llywodraethu'n cynnwys rhai o'r pethau statudol ***"gorfodol"*** sydd yn y Cod. Mae cyfreithwyr y coleg, Eversheds, wedi cynghori'r Corff Llywodraethu, mewn sesiwn Hyfforddi, bod angen i'r Corff Llywodraethu Llawn, dan y gyfraith sifil, gyflawni eu dyletswyddau statudol yn ôl a nodir yn y Cod. Mae'r Corff Llywodraethu'n cydnabod fod y Gwasanaeth Addysg Catholig wedi cynghori Archesgobaeth Caerdydd i beidio mabwysiadu'r Cod hwn. Mae'r Clerc wedi dethol yr holl ddyletswyddau statudol, fel a nodir yn y Cod Llywodraethu Da ar gyfer Colegau yng Nghymru, y mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i bob coleg eu cyflawni (rhai ohonyn nhw'n cael hailadrodd yn y Memorandwm Ariannol a'r Cod Ymarfer Archwilio) ac wedi ystyried ble mae'r coleg yn sefyll ar hyn o bryd, o ran cyflawni ei ddyletswyddau llywodraethu. Cyflwynodd y Clerc y papur hwnnw i'r Pwyllgor Chwilio ac i'r Corff Llywodraethu Llawn. Mae'n cadarnhau fod y Coleg yn cyflawni'r dyletswyddau statudol hynny. Mae'r Clerc wedi hysbysu'r Gwasanaeth Addysg

Catholig (CES), drwy Archesgobaeth Caerdydd, o'r hyn mae wedi ei wneud.

Mae'r Corff Llywodraethu Llawn wedi parhau i fod ac iddo aelodaeth sydd ag amrediad da o brofiad, arbenigedd a phroffesiynoldeb y gallan nhw fanteisio arno. Yn dilyn newid yn aelodaeth y Corff Llywodraethu, mae'r Clerc wedi diweddaru'r cofrestr sgiliau ac wedi hysbysu'r aelodau fod yma gydbwysedd cadarn o sgiliau addas i gyflawni'r dyletswyddau a chyfrifoldebau sy'n cael eu nodi yn yr Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu. Yn 2015-2016 cynhaliodd yr Archwilwyr Mewnol, RSM, archwiliad pellach o'r llywodraethu corfforaethol yn y coleg ac mae wedi adrodd i'r Pwyllgor Archwilio ac i'r Corff Llywodraethu ar bwnc *"Llywodraethu Corfforaethol y Pwyllgor Cyllid, Ystadau a Dibenion Cyffredinol / Personél"* gan ddweud

"Mae strwythur llywodraethu cadarn ar waith yn y Pwyllgor Cyllid, Ystadau a Dibenion Cyffredinol / Personél. Mae hyn wedi caniatáu i amcanion y Pwyllgor gael eu cyflawni ac felly caiff y Corff Llywodraethu gefnogaeth ddigonol o ran y meysydd y mae'r Pwyllgor hwn yn eu goruchwylio".

Dyma ganfyddiadau allweddol yr arolwg hwn:

- *Mae'r gofynion a ddisgwylir gan y Pwyllgor Cyllid, Ystadau a Dibenion Cyffredinol / Personél wedi eu diffinio'n eglur ac wedi eu cofnodi yng Nghylch Gorchwyl y Pwyllgor, sydd wedi eu cynnwys yn Llawlyfr y Llywodraethwyr.*
- *Roedd aelodaeth y pwyllgor yn adlewyrchiad o'r Corff Llywodraethu ac yn seiliedig ar sgiliau'r aelodau. Roedd y Coleg yn gweithio mewn partneriaeth ag Archesgobaeth Caerdydd i sicrhau fod gan aelodau'r Corff Llywodraethu, ac felly'r Pwyllgor, y sgiliau a'r profiad angenrheidiol ar gyfer eu swyddogaeth.*
- *Roedd adolygiadau rheolaidd yn cael eu cynnal, yn cynnwys awdit sgiliau, hunan-adolygiadau mewn cyfarfodydd o'r Pwyllgor a gwerthusiad gan Glerc y Corff Llywodraethu.*
- *Roedd hyfforddiant amrywiol wedi ei ddarparu ar gyfer y Corff Llywodraethu, oedd yn cynnwys holl aelodau'r Pwyllgor. Trefnwyd hyn tu allan i oriau gwaith i gynyddu'r tebygrwydd y gallai aelodau eu mynychu.*
- *Cyfarfu'r pwyllgor yn rheolaidd drwy'r flwyddyn. Cawsom dystiolaeth fod cworwm ym mhob cyfarfod yn ystod 2015-2016.*
- *Roedd y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor, fel sydd wedi ei adrodd yn y cofnodion a'r papurau, yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor a'r siediwl o eitemau i'w trafod ym mhob cyfarfod, i gydymffurfio â Llawlyfr y Llywodraethwyr.(2015-2016)"*

Roedd barn Archwiliad Mewnol RSM yn Sylweddol Wyrdd, y lefel uchaf o sicrwydd. Mae pob aelod o'r Corff Llywodraethu yn cydymffurfio gyda'r rheoliadau cymhwyster. Cedwir Cofrestr Diddordebau Llywodraethwyr ac Uwch Reolwyr, a chaiff hon ei diweddaru ac mae ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd.

Cedwir Cofrestr o'r polisi Rhoddion a Lletygarwch Aelodau Llywodraethu a Deiliaid Uwch Swyddi, ac mae'n cael ei chadw'n gyfredol.

Ni thalwyd unrhyw arian i ddigolledu aelodau'r Corff Llywodraethu am eu gwasanaeth fel aelodau yn ystod y cyfnod Awst 1 2015 hyd at Gorffennaf 31 2016. Ni ddyfarnwyd unrhyw gontract i gyflenwi nwyddau na gwasanaethau i unrhyw aelod o'r Corff Llywodraethu nac unrhyw sefydliad y mae gan yr aelodau gysylltiad â nhw, yn ystod y cyfnod Awst 1 2015 hyd at Gorffennaf 31 2016.

Mae'r Corff Llywodraethu wedi cyfarfod o leiaf unwaith y tymor yn y flwyddyn academaidd oedd yn dod i ben ar Orffennaf 31ain 2016. Ym mhob un o Gyfarfodydd y Corff Llywodraethu Llawn, mae'r Clerc yn darparu sy'n rhestru'r prif bynciau drafodwyd gan y pwyllgorau ac amlygu'r pwyntiau allai fod angen trafodaeth bellach, yn ogystal â'r rhai fydd angen cymeradwyaeth lawn y Corff Llywodraethu Llawn.
Mae'r Corff Llywodraethu wedi derbyn adroddiadau ariannol o leiaf unwaith y tymor yn y flwyddyn oedd yn dod i ben ar Orffennaf 31ain 2016.
Cynhaliwyd 22 cyfarfod o'r Corff Llywodraethu a'i Bwyllgorau yn ystod y flwyddyn academaidd o Fedi 1af 2015 hyd at Orffennaf 31ain 2016. Roedd cworwm ym mhob un.

Cyfarfu'r **Corff Llywodraethu Llawn** bedair gwaith yn ystod y flwyddyn Awst 1af 2015 hyd at Orffennaf 31ain 2016.
Hydref 21ain 2015, Rhagfyr 15fed 2015, Mawrth 17eg 2016, a Gorffennaf 7fed 2016.

Cyfarfu'r Pwyllgor **Chwilio** deirgwaith yn ystod yr un cyfnod: Medi 29ain 2015, Ionawr 29ain 2016 a Mai 4ydd 2016.

Cyfarfu'r **Pwyllgor Cyllid, Ystadau a Dibenion Cyffredinol** a'r **Pwyllgor Personél** bum gwaith: Medi 29ain 2015, Tachwedd 17eg 2015, Chwefror 23ain 2016, Mai 17eg 2016 a Mehefin 28ain 2016.

Cyfarfu'r **Pwyllgor Archwilio** deirgwaith yn ystod yr un cyfnod:
Rhagfyr 7fed 2015, Mawrth 8fed a Mehefin 14eg 2016

Cyfarfu'r **Pwyllgor Cymunedol** deirgwaith yn ystod yr un cyfnod:
Hydref 10fed 2015, Mawrth 10fed 2016 a Mehefin 9fed 2016

Cyfarfu'r **Pwyllgor Cwricwlwm a Sicrwydd Ansawdd** deirgwaith yn ystod yr un cyfnod:
Hydref 16fed 2015, Mawrth 9fed 2016 a Mehefin 7fed 2016

Cyfarfu'r **Pwyllgor Cydnabyddiaeth** unwaith ar Fawrth 15fed 2016

Dros y tair blynedd diwethaf, sefydlwyd partneriaeth ffurfiol â Choleg y Cymoedd ac Ysgol Uwchradd Cardinal Newman RhCT ac arweiniodd hyn at sefydlu Cyd-Bwyllgor Cyrff Llywodraethu. Cyfarfu'r pwyllgor hwn deirgwaith: Rhagfyr 13eg 2015, Mawrth 1eg 2016 a Gorffennaf 4ydd 2016 (daw'r Cadeirydd cyfredol o Goleg y Cymoedd).
Cynhaliodd y Llywodraethwyr hyfforddiant a thrafodaethau ar y pynciau canlynol:

- Trafod Agenda Addysg Llywodraeth Cymru; Cynghreiriau Strategol/ Cydweithio sydd ar agenda pob Pwyllgor ac yn cael ei drafod o fewn ac o

ganlyniad i Adroddiad y Pennaeth yng Nghyfarfodydd y Corff Llywodraethu Llawn.

- Cafodd ymateb y Coleg i Flaenoriaethau Gweinidogol 2015-2016 y sector AB eu trafod yn y Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd ym Mehefin 2016.
- Mawrth 17fed 2016, gyda Sally Isaacs o gwmni Eversheds; Diweddariad ar effaith newidiadau diweddar yn y Ddeddf Cyflogaeth a darpar newidiadau diweddar sydd yn yr arfaeth ac ymgynghoriad ar ddyletswyddau a chyfrifoldebau Ymddiriedolwyr gan y Comisiwn Elusennau.
- Taclwyd yr Agenda Rhwystro drwy i'r Dirprwy Bennaeth ddiweddaru'r wybodaeth i'r Pwyllgor Cymunedol ar Fehefin 9fed 2016.

Mae'r Clerc yn aelod o Rwydwaith Clercod ColegauCymru a bu'n mynychu Cynhadledd ColegauCymru ar Fehefin 30ain/Gorff 1af 2016 yng ngwesty'r Metropole, Llandrindod.
Mae'r Clerc hefyd wedi mynychu seminar gan gwmni Geldhard ar Ebrill 20ain 2016 ar ddiweddariadau'r Ddeddf Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth.
Mae'r Clerc wedi cwblhau'r Hyfforddiant Diogelu ac wedi mynychu'r cyrsiau canlynol gan gwmni Eversheds:
Chwythu'r Chwiban Ebrill 2015
Datblygiadau Critigol yn y Gyfraith. Mehefin 2015

Yn ystod y flwyddyn 2015-2016, mae'r Corff Llywodraethu wedi adolygu a chymeradwyo'r polisïau canlynol:

- Anghenion Addysgol Ychwanegol/Diogelu Plant a Phobl Ifanc 2016
- Adolygiad o'r Weithdrefn Disgyblu Staff 2016
- Polisi Prawf / Gallu Mawrth 2016
- Polisi Cyfryngau Cymdeithasol Mawrth 2015
- Datblygiad y Cynllun Iaith i gwrdd â Rheoliadau Statudol: Mehefin 2016
- Anghenion Dysgu Ychwanegol Mawrth 2016
- Cynllun Marchnata 2016
- Polisi Marchnata Rhyngwladol Mehefin 2016:
- Strwythur Ffioedd Myfyrwyr Rhyngwladol Mehefin 2016:
- Iechyd a Diogelwch Mehefin 2016
- Polisi Cludiant Myfyrwyr Mehefin 2016
- Polisi Ymweliadau Addysgol, Gweithgaredd oddi ar y safle (teithiau)
- Polisi Asesu Mehefin 2016
- Rheoliadau Ariannol Gorffennaf 2016
- Chwythu'r Chwiban
- Gwrth-dwyll

Mae'r Uwch Dîm Arweiniol wedi cyfarfod o leiaf unwaith yr wythnos rhwng Medi 1af 2015 a Gorffennaf 31ain 2016.
Mynychodd aelodau o'r Corff Llywodraethu, y Pennaeth neu ei gynrychiolydd, y cyfarfodydd canlynol:

- Partneriaeth y Coleg â Cholegy Cymoedd: Ffederasiwn Gorllewin Caerdydd
- Cysylltiad ag Ysgol Uwchradd St Teilo: Ysgol Uwchradd Willows
- Rhwydwaith Ddysgu Fetropolitan ALl Caerdydd (14-19) a'r Grŵp Llywio
- Cyfarfodydd pob tymor Penaethiaid De Ddwyrain Cymru
- Cyfarfodydd Cymdeithas Esgobaethol Penaethiaid Uwchradd Caerdydd – bob tymor
- Comisiwn Addysg Archesgobaeth Caerdydd – bob tymor
- ACVIC – Cymdeithas Colegau 6ed Dosbarth Catholig – bob tymor
- Cyfarfodydd Penaethiaid AB ColegauCymru yn ôl y galw
- Rheolwyr Cwricwlwm ColegauCymru – bob tymor
- Rheolwyr Ansawdd ColegauCymru – bob tymor
- Rheolwyr Cyllid ColegauCymru a Rheolwyr AD – yn ôl y galw
- Cyfarfodydd Ffederasiwn (16-19) Gorllewin Caerdydd – yn ôl y galw
- Cynhadledd Penaethiaid Ysgolion Uwchradd Caerdydd ((14-19) – yn ôl y galw
- Grŵp Rhwystro De Cymru – yn ôl y galw

Rwyf yn tystio bod y wybodaeth uchod yn gywir.

Clerc y Corff Llywodraethu: MD Howells Dyddiad Hydref 13 2016

Ardystiwyd gan Gadeirydd y Llywodraethwyr:
C Mahoney Dyddiad Hydref 13 2016